

Fforwm Addysg Gymraeg Blaenau Gwent

Cylch Gorchwyl

Diben

Bydd y Fforwm yn cyfrannu at, cynllunio'n strategol, monitro a gwerthuso Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) Blaenau Gwent, gan gefnogi targedau Llywodraeth Cymru o fewn 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg' (2010).

Cylch Gwaith

Bydd y Fforwm yn sianel ffurfiol o gyfathrebu rhwng Cyngor Blaenau Gwent, yr ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynhalir ganddo a sefydliadau partner eraill; a all gydweithio tuag at flaenoriaethau lleol a strategol.

Bydd y Fforwm yn:

- gweithredu fel grŵp ymgynghorol, gan gyfrannu at ddatblygu, monitro a gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg;
- datblygu a monitro cynllun gweithredu lleol;
- monitro'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg;
- monitro darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac fel grŵp benderfynu ar waith tuag at ddatblygiadau yn y dyfodol; a
- llunio adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru yn disgrifio cynnydd o ran gweithredu targedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o gymharu â'r amserlen a gymeradwywyd.

Aelodaeth

Aelodau'r Fforwm fydd yr aelodau 'craidd' dilynol a benodir gan Swyddogion Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent:

- Pennaeth Trawsnewid Addysg a Pherfformiad
- Arweinydd Tîm Trawsnewid Addysg
- Swyddog Ysgolion 21ain Ganrif
- Datblygu Sefydliadol
- Rheolwr Cynhwysiant
- Rheolwr Cludiant
- Swyddog Cydraddoldeb
- Swyddog Cyfranogiad
- Rheolwr Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar a Chwarae
- Rheolwr Gwasanaeth Ieuentid

Cynrychiolaeth ysgolion:

- 1 cynrychiolydd Pennaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg
- 1 cynrychiolydd ysgol uwchradd Ysgol Gyfun Gwynllyw
- 1 cynrychiolydd ysgol cyfrwng Saesneg

Sefydliadau partner:

- Mudiad Meithrin
- RhAG
- Urdd Gobaith Cymru
- Menter Iaith Blaenau Gwent
- Gwasanaeth Cyflawni Addysg - Arweinydd Systemau y Gymraeg
- Coleg Gwent

Symud Aelodau

Bydd aelodau'r Fforwm yn peidio bod yn aelodau pan maent yn peidio dal y swydd lle daethant yn gymwys ar gyfer eu penodi. Ceisir cynrychiolydd arall yn eu lle yn yr achosion hynny.

Cyfarfodydd y Fforwm

Bydd y Fforwm yn cwrdd o leiaf dair gwaith bob blwyddyn, unwaith ym mhob tymor academaidd. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd. Rhoddir o leiaf saith diwrnod ysgrifenedig i aelodau o gyfarfodydd y Fforwm, heblaw mewn argyfwng.

Bydd y tîm Trawsnewid Addysg yn cefnogi'r Fforwm wrth ddatblygu, casglu a chylchredeg dogfennau perthnasol mewn ffurf electronig, gyda chopïau papur ar gael ar gais i aelodau o leiaf saith diwrnod cyn pob cyfarfod.

Cadeirydd ac Is-gadeirydd

Bydd y cadeirydd yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Fforwm, Caiff y cadeirydd a'r is-gadeirydd eu hethol yn y cyfarfod cyntaf a gynhelir ar ddechrau pob blwyddyn academaidd. Cynhelir cyfarfodydd cynllunio ymlaen llaw gyda'r cadeirydd cyn pob cyfarfod o'r Fforwm.

Is-bwyllgorau

Gall y Fforwm sefydlu is-bwyllgorau lle mae angen i ystyried materion neilltuol dwy ddull gweithredu gorchwyl a gorffen. Bydd y Fforwm yn ystyried gwaith is-bwyllgorau o'r fath ac yn gwneud argymhellion fel sydd angen.

Cyfrinachedd

Ar achlysuron gellir rhannu gwybodaeth o natur gyfrinachol gydag aelodau o'r Fforwm i'w cynorthwyo i ddeall y mater sy'n cael ei drafod. Mae'n rhaid i aelodau'r Fforwm sicrhau cyfrinachedd gwybodaeth o'r fath.